

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC: PWYLLGOR GWEITHREDOL -
17 GORFFENAF 2019**

ADRODDIAD GAN: SWYDDOG GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**PRESENNOL: Arweinydd y Cyngor/Aelod Gweithredol Gwasanaethau
Corfforaethol**

Cynghorydd N.J. Daniels (Cadeirydd)

Aelod Gweithredol - Amgylchedd

Cynghorydd G. Collier

Aelod Gweithredol - Addysg

Cynghorydd J. Collins

Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd

Cynghorydd D. Davies

GYDA

Rheolwr Gyfarwyddwr

Prif Swyddog Adnoddau

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau

Cymunedol

Pennaeth Trawsnewid Addysg

Cyfreithiwr

Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd

PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
1	<p><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
3	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-</p> <p>Cynghorydd J. Mason, Aelod Gweithredol - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg</p>	
4	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
	<p><u>MATERION CYFFREDINOL</u></p>	
5	<p><u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.</p>	

EITEM	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
6	<p data-bbox="199 443 671 483"><u>CYNADLEDDAU/CYRSIAU</u></p> <p data-bbox="199 528 1002 568">Rhoddwyd ystyriaeth i bresenoldeb yn y dilynol:-</p> <p data-bbox="199 613 676 654"><u>Diwrnod Lluoedd Arfog 2019</u></p> <p data-bbox="199 698 1382 784">PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd M. Moore, Cadeirydd y Cyngor, fynychu.</p> <p data-bbox="199 828 1133 869"><u>Sioe Frenhinol Cymru, dydd Mawrth 23 Gorffennaf 2019</u></p> <p data-bbox="199 913 1382 999">PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog, fynychu.</p> <p data-bbox="199 1043 1345 1128"><u>Cyfarfod Llawn ADEW, Cyfarfod gydag Aelodau Cabinet a Chyfarfod Blynyddol gyda'r Gweinidog</u></p> <p data-bbox="199 1128 999 1169"><u>Dydd Iau 19 Medi a dydd Gwener 20 Medi 2019</u></p> <p data-bbox="199 1214 1382 1299">PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd J. Collins, Aelod Gweithredol Addysg, fynychu.</p> <p data-bbox="199 1344 1259 1429"><u>Seremoni Flynyddol Gwobrau Cyflawniad Gwirfoddolwyr GAVO</u></p> <p data-bbox="199 1384 620 1424"><u>Dydd Iau 17 Hydref 2019</u></p> <p data-bbox="199 1469 1382 1554">PENDERFYNWYD rhoi cymeradwyaeth i'r Cynghorydd M. Moore, Cadeirydd y Cyngor, fynychu.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>												
	<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD</u>													
	<u>MATERION YR ARWEINYDD/GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>													
7	<p><u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG Y PWYLLGOR GWEITHREDOL</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd/Aelod Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar Flaenraglen Gwaith y Pwyllgor Gweithredol ar gyfer 2019/2020.</p>													
8	<p><u>GRANTIAU I SEFYDLIADAU</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Prif Swyddog Adnoddau.</p> <p>Hysbyswyd Aelodau am y grantiau ychwanegol dilynol a gyflwynwyd i'w cymeradwyo ers paratoi'r adroddiad:-</p> <p><u>ABERTYLERI</u></p> <p><u>Ward Cwmtyleri - Cynghorydd M. Day</u></p> <table data-bbox="213 1653 1385 1798"> <tr> <td>1.</td> <td>Clwb Rygbi Old Tyleryan</td> <td>£50</td> </tr> <tr> <td>2.</td> <td>Band Tref Abertyleri</td> <td>£50</td> </tr> <tr> <td>3.</td> <td>Clwb Pêl-droed Excelsiors Abertyleri</td> <td>£100</td> </tr> </table> <p><u>Ward Llanhiledd - Cynghorydd J. Collins a N. Parsons</u></p> <table data-bbox="213 1989 1385 2033"> <tr> <td>1.</td> <td>Clwb Bowls Llanhiledd</td> <td>£150</td> </tr> </table>	1.	Clwb Rygbi Old Tyleryan	£50	2.	Band Tref Abertyleri	£50	3.	Clwb Pêl-droed Excelsiors Abertyleri	£100	1.	Clwb Bowls Llanhiledd	£150	
1.	Clwb Rygbi Old Tyleryan	£50												
2.	Band Tref Abertyleri	£50												
3.	Clwb Pêl-droed Excelsiors Abertyleri	£100												
1.	Clwb Bowls Llanhiledd	£150												

EITEM	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>									
	<u>MATERION Y DIRPRWY ARWEINYDD/AMGYLCHEDD</u>										
	<p><u>GLYNEBWY</u></p> <p><u>Ward Cwm – Cynghorydd D. Bevan a G. Davies</u></p> <table data-bbox="212 674 1362 763"> <tr> <td>1.</td> <td>Ysgol Gynradd Cwm</td> <td>£100</td> </tr> <tr> <td>2.</td> <td>Clwb Colomennod Cwm</td> <td>£100</td> </tr> </table> <p><u>NANTYGLO A BLAENAU</u></p> <p><u>Ward Blaenau - Cynghorydd G. Collier</u></p> <table data-bbox="212 1003 1362 1048"> <tr> <td>1.</td> <td>Apêl Maer Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau</td> <td>£100</td> </tr> </table> <p>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad.</p>	1.	Ysgol Gynradd Cwm	£100	2.	Clwb Colomennod Cwm	£100	1.	Apêl Maer Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau	£100	
1.	Ysgol Gynradd Cwm	£100									
2.	Clwb Colomennod Cwm	£100									
1.	Apêl Maer Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau	£100									
9	<p><u>GWASANAETHAU DIOGELU'R CYHOEDD - DOD I BEN Â'R CYDWEITHREDU GyDA CBS TORFAEN</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.</p> <p>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol yr Amgylchedd fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddod i ben â'r cydweithredu gyda Torfaen ar gyfer gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. Nododd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a thynnu sylw at oblygiadau ariannol pwysau cost yn y flwyddyn a amcangyfrifwyd ar £35,000 a phwysau cost yn y dyfodol o £106,000 ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Cyfeiriodd ymhellach at yr opsiynau ar gyfer argymhelliad a chynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1 gyda chytundeb y gynhelir adolygiad llawn o'r gwasanaeth.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p>										

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<p>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod Blaenau Gwent a hefyd Torfaen wedi manteisio o'r gwaith ar y cyd a dywedodd y byddid yn dal i ymchwilio gwaith ar y cyd ar gyfer y maes hwn a meysydd gwasanaeth eraill.</p> <p>Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn anffodus fod y cydweithio wedi dod i ben, fodd bynnag roedd yn ystyriol o oblygiadau'r gyllideb a nododd ymrwymiad yr Awdurdod i gydnerthedd ariannol. Felly ni fedrid diystyru'r goblygiadau ariannol ac mae'n bwysig adolygu'r gwasanaeth er mwyn lliniaru'r pwysau cost a gafodd eu creu gan na fyddai'n cael ei drosglwyddo o feysydd gwasanaeth eraill.</p> <p>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn, 1, sef bod yr Awdurdod yn dod i ben â'r cydweithredu gyda CBS Torfaen ar gyfer gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd ar 30 Tachwedd 2019. Cynhelir adolygiad llawn o'r gwasanaeth ar ôl dod ag ef i ben.</p>	
10	<p><u>CAIS I GAFFAEL TIR YM MHARC BEDWELLTE</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.</p> <p>Siaradodd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol yr Amgylchedd am yr adroddiad ac amlinellu'r wybodaeth ynddo. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod iechyd a llesiant yn flaenoriaeth allweddol yn amcanion strategol y Cyngor.</p> <p>Nododd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol yr Amgylchedd y cyfeirir at y caffaeliad ledled yr adroddiad fel caffael, trosglwyddo a gwerthu tir. Teimlai fod angen egluro pa drafodion a wnaed.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<p>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y dylai'r telerau a nodir uchod ddarllen 'gwaredu â thir' ac felly cytunwyd y dylid nodi/diwygio hyn.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p> <p>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod y Cyngor fel ymddiriedolwyr elusennol yn cytuno ar egwyddor gwaredu â'r darn o dir i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i'w gynnwys o fewn datblygiad ei Ganolan Iechyd a Llesiant arfaethedig ar delerau i'w cytuno yn amodol ar -</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Hysbysebu'r trosglwyddiad arfaethedig dan a.123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed; ii) Hysbysebu'r gwarediad yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 fel y manylir yn 5.3.7 islaw; iii) Cymryd cyngor priodol syrfëwr gyda chymwysterau RICS ar ddull a thelerau'r trosglwyddiad; a iv) Fel y manylir yn 5.1.1 islaw, unrhyw dderbyniad cyfalaf yn cael ei neilltuo ar gyfer ei ddefnyddio gan yr elusen a pheidio cael ei gronni i'w ddefnyddio o fewn Cronfa Gyffredinol y Cyngor. 	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<u>EITEMAU MONITRO</u>	
	<u>MATERION YR ARWEINYDD/ GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>	
11	<p><u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW - ALL-DRO DARPARIAETHOL 2018/2019</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.</p> <p>Dyweddodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn diweddarau'r Pwyllgor Gweithredol ar yr all-dro darpariaethol yn erbyn y gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019 ar draws pob portffolio. Mae hefyd yn adrodd ar y dilynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trosglwyddiadau cyllideb a weithredwyd yn y cyfnod Ionawr 2019 i Fawrth 2019 • Manylion amrywiadau anffafriol sylweddol ar draws pob portffolio; • All-dro darpariaethol ar gyfer ffioedd a thaliadau; a • Chynnydd ar gyflawni'r prosiectau effeithlonrwydd ariannol ar gyfer 2018/2019. <p>Soniodd y Prif Swyddog Adnoddau am y prif bwyntiau o fewn yr adroddiad a dywedodd fod yr amrywiad anffafriol ar 31 Mawrth 2019 yn £71,000 sy'n sefyllfa llawer gwell na'r canlyniad a ragwelwyd ym mis Rhagfyr 2018 a adroddwyd ar £810,000. Mae'r amrywiad anffafriol ar ôl tynnu £800,000 o gronfeydd wrth gefn penodol, eto swm is nag a ragwelwyd yn flaenorol. Y prif feysydd sy'n cyfrannu at y sefyllfa well yw gwariant is na'r disgwyl o Gynllun Gostwng Treth Cyngor a gwarged uwch ar Gasgliad, y gwariant net ar gyfer y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn is na'r disgwyl a defnydd Grant Cynnal a Chadw Adeiladau Cyfalaf Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd. Dyrannwyd £240,000 o'r grant hwn i addysg a'r Landlord Corfforaethol a'i ddefnyddio yn erbyn gwariant cymwys ar draws y portffolio ysgolion.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<p>Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau grynodedb pellach o ddadansoddiad portffolios a fanylir yn yr adroddiad.</p> <p>I gloi, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr incwm a gynhyrchwyd yn uwch na'r targed gan £297,000 a nododd y maes mwyaf sylweddol o gynhyrchu incwm. Yn ychwanegol, tynnodd y Prif Swyddog sylw at gyflawni 91% o'r prosiectau effeithiolrwydd ariannol a gytunwyd ar gyfer 2018/19 ac ychwanegodd ei fod yn adroddiad cadarnhaol sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni'r lefel briodol o arbedion.</p> <p>Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor Gweithredol a'r Tîm Arwain Corfforaethol yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y materion hyn ac yn neilltuoel bwysau cost, felly mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfarwydd gyda'r pwysau cost a'r camau gweithredu i'w cynnal i ostwng y pwysau. Canmolodd swyddogion am faint o waith a wnaethpwyd sy'n dangos fod y Pwyllgor Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cydweithio'n dda dros y 2 flynedd ddiwethaf i sicrhau cyllidebau cadarnhaol ac y byddir yn parhau â'r gwaith hwn. Mae'n dangos yr ymrwymiad i wella ein cydnerthedd ariannol gan fod amrywiad anffafriol o £70,000 gystal â balans clir. Yn nhermau dileu hen stoc goleuadau stryd, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn iawn ac yn gywir i ddileu'r stoc hwn gan y bu o gwmpas am flynyddoedd.</p> <p>Ychwanegodd yr Arweinydd ymhellach y byddai'r adroddiad yn bwydo i'r gwaith a wneir fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Phontio'r Bwlch sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa ariannol well ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Cytunodd Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gyda sylwadau'r Arweinydd a chydabod y gwaith da a wneir ym mhob Adran i gyflawni o fewn eu cyllidebau. Caiff hyn hefyd ei gydnabod o fewn cymunedau gan fod gwasanaethau yn gwella wrth ochr y cyllidebau. Mae'r adborth cadarnhaol yn dyst i'r newidiadau a wnaed dros y 2 flynedd ddiwethaf. Y cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol sydd wedi cyflawni'r newidiadau hyn ac mae'n hyderus y byddai'n parhau yn y dyfodol.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<p>Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr hefyd yn dymuno diolch i swyddogion ym mhob Adran am eu hymdrechion ynghyd â'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol. Cytunodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei fod yn dangos y gallai'r Awdurdod fyw o fewn y gyllideb a osodwyd yn ogystal â diogelu a gwella gwasanaethau.</p> <p>Fe wnaeth y Dirprwy Arweinydd hefyd longyfarch y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, fodd bynnag dywedodd ei bod yn hollbwysig cynnal y safonau hyn.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r canlyniadau ariannol yn yr adroddiad.</p>	
12	<p><u>MONITRO CYLLIDEB CYFALAF - ALL-DRO DARPARIAETHOL 2018/2019</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.</p> <p>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf gwirioneddol pob Portffolio o gymharu â chymeradwyaeth cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Hysbysodd y Prif Swyddog y Pwyllgor Gweithredol fod un gorwariant ar gyfer cynlluniau cyfalaf yng nghyswllt y Siop Cwmni, Tredegar a dywedodd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Cadw i ddynodi datrysiaid i'r problemau.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac yn dilyn yr her briodol i'r canlyniadau ariannol yn yr adroddiad, bod y gweithdrefnau rheoli ariannol a gytunwyd gan y Cyngor yn parhau i gael eu cefnogi. Hefyd nodwyd y gweithdrefnau rheoli a monitro cyllideb sydd ar waith o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu cyllid yr Awdurdod.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
13	<p data-bbox="197 356 1382 439"><u>DEFNYDD CRONFEYDD CYFFREDINOL WRTH GEFN A CHRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI WRTH GEFN 2018/2019</u></p> <p data-bbox="197 443 1198 481">Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.</p> <p data-bbox="197 528 1382 904">Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi drafft sefyllfa cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2018/2019 a dywedodd fod yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cysylltu gyda'r adroddiadau a gyflwynwyd yn flaenorol. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at y prif bwyntiau o fewn yr adroddiad a nodi fod y gronfa gyffredinol wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn 2018/2019 wedi cynyddu gan £0.412m i £5.894m sy'n uwch na'r targed o 4%. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi hefyd wedi cynyddu gan £1.551m sy'n rhoi cyfanswm o £6.568m.</p> <p data-bbox="197 954 1382 1294">Hysbysodd y Prif Swyddog Adnoddau fod adolygiad o ddarpariaethau a chronfeydd wrth gefn, ynghyd â phenderfyniad y Cyngor y dylid dyrannu incwm ar hap i'r gronfa gyffredinol wrth gefn, wedi cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wedi'u clustnodi. Ychwanegodd y Prif Swyddog y byddai'r Cyngor yn y dyfodol yn cynnal y targed o 4% ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol a lle'n bosibl yn cynyddu lefelau cronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn hybu sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor byr a'r tymor canol.</p> <p data-bbox="197 1344 1382 1809">Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n dangos fod y Cyngor yn symud yn y cyfeiriad cywir a bod ymrwymiad i symud ymlaen. Nododd yr Arweinydd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi beirniadu'r Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol nid yn benodol ar lefel y cronfeydd wrth gefn ond ar dueddiad defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn mewn blynyddoedd blaenorol. Defnyddiwyd tua £16m mewn cyfnod o 4-5 mlynedd ac yn wleidyddol cydnabuwyd yn awr fod rhesymeg i ail-lenwi cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Ychwanegodd yr Arweinydd bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn cyfarfod diweddar wedi cydnabod yr ymrwymiad i ailadeiladu cronfeydd wrth gefn.</p> <p data-bbox="197 1859 1382 2103">PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi defnydd gwirioneddol cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi ar gyfer 2018/2019 ynghyd â chynnal a chadw cynlluniedig y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol ar y lefel targed o 4% ar gyfer 2018/2019 a blynyddoedd y dyfodol. Byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn parhau i herio gorwariant cyllideb a gweithredu Cynlluniau Gweithredu gwasanaeth lle bo angen.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
14	<p><u>CHWARTER 4 (IONAWR I MAWRTH 2019)</u> <u>CYD-ADRODDIAD CYLLID A PHERFFORMIAD</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaeth.</p> <p>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi crynodeb o berfformiad y Cyngor. Ychwanegodd y byddai'r Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfarwydd gyda'r wybodaeth ynddo gan y cafodd yr wybodaeth ei monitro a'i thrafod yn rheolaidd.</p> <p>Soniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol am well perfformiad mewn Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o waith ymyrraeth cynnar ac atal yn neilltuol o fewn ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cymorth a Chynghori mewn Gwasanaethau Oedolion a hefyd Wasanaethau Plant, gyda phartneriaid statudol megis lechyd a'r Heddlu a'n partneriaid trydydd sector.</p> <p>Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol at fanteision ailfuddsoddi mewn gwasanaethau fel glanhau strydoedd a phrifyrdd sy'n dyst i'r timau ar lawr gwlad. Hefyd nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y nifer uwch o fusnesau newydd a chytunodd Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd ei bod yn dda gweld busnesau newydd a busnesau presennol yn cael eu cadw o fewn Blaenau Gwent. Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol fod datblygiadau tai yn dod i'r amlwg a'u bod yn elfen allweddol mewn tyfu'r economi. Bu'r buddsoddiad yn y dyfodol fel rhan o'r Prosiect Cymoedd Technoleg a fyddai'n tyfu cyfleoedd ymhellach o fewn Blaenau Gwent.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<u>MATERION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>	
15	<p><u>CYNNYDD AR WEITHREDU STRATEGAETH GOSTWNG YN DDIOGEL NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GOFAL</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.</p> <p>Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad roi cynnydd a wnaed yng nghyswllt gweithredu Strategaeth Gostwng yn Ddiogel Nifer y Plant sy'n Derbyngofal 2017-2020. Rhoddodd drosolwg manwl o'r adroddiad a nododd fod y niferoedd wedi gostwng yn araf ers mis Gorffennaf 2018 gan 23 o blant. Felly ar hyn o bryd mae 214 o blant yn derbyn gofal o gymharu gyda 237 ym mis Gorffennaf 2019, gostyngiad o 10% dros y cyfnod. Mae hyn fel canlyniad i'r camau a gymerwyd fel rhan o'r Strategaeth a gyda nifer o fesurau eraill i gael eu gweithredu, gobeithir y byddwn yn gweld cynnydd pellach yn y dyfodol.</p> <p>Nododd yr Aelod Gweithredol y plant a gaiff eu gosod mewn gofal allan o Gymru a gofynnodd beth sy'n cael ei wneud i sicrhau y caiff y plant hyn eu lleoli yn nes adref. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod pob awdurdod yng Nghymru yn cael problemau gyda lleoliadau sydd ar gael yn lleol ac mae'n amlwg fod galw. Mae'n anochel y bydd Grŵp Technegol Llywodraeth Cymru yn argymhell datblygu llety mwy addas yng Nghymru.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.</p>	

EITEM	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<u>MATERION Y DIRPRWY ARWEINYDD/AMGYLCHEDD</u>	
16	<p><u>PERFFORMIAD GWASTRAFF AC AILGYLCHU</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.</p> <p>Amlinellodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar ganlyniadau gwastraff ac ailgylchu ar gyfer 2018/2019. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y bu cynnydd mewn ailgylchu ers cyflwyno gorfodaeth gwastraff ochr a didoli bagiau du yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod ffigur heb ei ddilysu o 59.26%, sy'n welliant mawr. Nododd y Dirprwy Arweinydd hefyd gynnydd mewn cyfraddau gwastraff gwyrdd a gwastraff bwyd gyda gostyngiad mewn gwastraff gweddilliol.</p> <p>Croesawodd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yr adroddiad cadarnhaol sy'n dangos cynnydd o 3.26% mewn ailgylchu o gymharu gyda 2017/2018 gyda'r gyfradd yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru.</p> <p>Nododd yr Arweinydd yr adroddiad cadarnhaol a dweud iddo fynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Lleol a'i gweision sifil. Dywedodd yr Arweinydd y rhodddwyd sicrwydd fod Blaenau Gwent yn ymrwymedig i gynyddu cyfraddau ailgylchu a rhodddwyd gwybodaeth ar ein cynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targed o 64% a thu hwnt, pwysleisiodd yr Arweinydd fod angen i'r Ganolfan weithredu ail Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn ardal Ebwy Fach. Rhodddwyd cyflwyniad ardderchog gan Reolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymunedol sy'n dangos ymrwymiad yr Awdurdod a gwnaethom ofyn am gymorth gyda chyllid ar gyfer y cynllun. Mae'r Arweinydd yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cais hwn a fyddai'n ased rymus iawn i Blaenau Gwent gyrraedd targedau ailgylchu.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad ynghyd â'r argymhellion gan y Pwyllgor Craffu, fel sy'n dilyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymestyn biniau ailgylchu 'allan tu fas' yn ehangach (ymgynghorir ag aelodau Ward ar leoliadau) • Ymchwilio opsiynau ar ailgylchu gwastraff anifeiliaid • Cwmpasu posibilrwydd torri glaswellt yn dilyn torri gofodau agored • Casglu gwastraff gwyrdd o sefydliadau CAT ar gais • Cwmpas ehangach i sioeau teithio dargedu ardaloedd perfformiad isel. 	
	<u>MATERION ADDYSG</u>	
17	<p><u>CRYNHOI DEILLIANNAU AROLYGON AR GYFER SEFYDLIADAU ADDYSGOL – TYMOR YR HYDREF 2018 A THYMOR Y GWANWYN 2019</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.</p> <p>Siaradodd yr Aelod Gweithredol Addysg am yr adroddiad a rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd gan Estyn yn dilyn yr arolygiadau.</p> <p>Ar y pwynt hwn cydnabu'r Arweinydd nifer o adroddiadau cadarnhaol a gyflwynwyd sy'n rhoi sylw i gynnydd mewn perfformiad, gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ynghyd â gwell ffigurau gwastraff af ailgylchu. Mae arolygiadau Estyn yn dynodi gwelliannau mewn ysgolion a sefyllfa cyllideb galonogol. Nododd yr Arweinydd y cyflwynwyd adroddiadau cadarnhaol o bob portffolio a theimlai ei fod yn dangos ymrwymiad y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a dull gweithredu strategol y Pwyllgor Gweithredol Dymunai ddiolch i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a swyddogion yn ogystal â'r cymorth gwleidyddol a roddwyd i swyddogion.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWAITH</u>
	<u>EITEM PENDERFYNU</u>	
	<u>MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</u>	
18	<p><u>OPSIWN I GAFFAEL TIR YN RASA, GLYNEBWY</u></p> <p>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwysu a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad felly gael ei eithrio.</p> <p>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad ar y cyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Stadau a Rheoli Asedau Strategol.</p> <p>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau yn cynnwys yr Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cefnogi'r llwyr gweithredu a wnaethpwyd hyd yma a bod yr Awdurdod yn ymrwymo i Gytundeb Opsiwn.</p>	